# Croeso i YHA

## Pecyn recriwtio Ymddiriedolwyr 2025



# Ni yw YHA

Rydym yn credu yng ngrym teithio ac antur i gysylltu pobl â'i gilydd, â natur a threftadaeth. Mae'r cysylltiadau hyn yn gwneud gwyrthiau i'n llesiant.

Ers 1930, mae YHA wedi rhedeg rhwydwaith unigryw o hosteli ledled Cymru a Lloegr - cymuned o fannau a rennir, sy'n agored i bawb ac er budd pawb.

Rydym yn cynnig anturiaethau cynhwysol, mewn adeiladau hynod, mewn lleoedd rhyfeddol — Ond rydym yn cynnig llawer mwy na dim ond llety.

Mae YHA yn ddarparwr arosiadau addysg preswyl blaenllaw yn y sector, yn hyrwyddwr dros roi mynediad i bawb i'r awyr agored - yn enwedig pobl ifanc, ac yn gyflogwr Buddsoddwyr mewn Pobl lefel Aur.

Rydym yn fenter gymdeithasol fawr sy'n arwain y ffordd o ran twristiaeth gymdeithasol a meithrin partneriaethau sy'n cael effaith ar draws nifer o sectorau ac ar bob lefel - yn ein cymunedau, yn ein rhanbarthau, ac yn genedlaethol.

95 o flynyddoedd ar ôl ein cychwyniad arloesol, mae ein hegwyddorion sefydlol a'n penderfyniad i gyflawni daioni cymdeithasol yn parhau i fod wrth galon yr hyn a wnawn.


Gyda'r nod o gynaliadwyedd hirdymor, camwn at ein canmlwyddiant gyda strategaeth wedi'i diweddaru er mwyn galluogi i bawb gael antur, am y tro cyntaf ac am oes.

**Ni yw YHA.**

**Oherwydd mae ble yr ewch chi yn newid pwy fyddwch chi.**








## Gweledigaeth

Bod pawb yn gallu manteisio ar fuddion antur, am y tro cyntaf ac am oes.



## Cenhadaeth

Galluogi pawb, yn enwedig pobl ifanc, i gysylltu â phobl, natur a threftadaeth trwy hosteli mewn lleoedd rhyfeddol.

## Amcanion elusennol

Helpu pawb, yn enwedig pobl ifanc ag incwm cyfyngedig, i wella eu gwybodaeth am gefn gwlad, eu cariad ato, a'u gofal ohono; ac i werthfawrogi gwerthoedd diwylliannol trefi a dinasoedd, yn enwedig drwy ddarparu hosteli ieuenctid neu lety arall iddynt yn ystod eu teithiau, ac felly hybu eu hiechyd, eu hamdden a'u haddysg.

Gallwch ddysgu mwy am YHA, ein hanes, strategaeth a'n heffaith ar yha.org.uk/about-yha.

# Helo

## Diolch am fynegi diddordeb yn y rôl o Ymddiriedolwr i'r elusen anhygoel hon

Fi yw Margaret Hart ac rydw i'n Gadeirydd Bwrdd YHA ers 2019. Trwy gydol fy ngyrfa, cefais y fraint o weithio gyda llawer o sefydliadau arbennig, ond nid oes yr un ohonynt wedi cael yr un cyfuniad o genhadaeth, cyrhaeddiad a chalon ag sydd gan YHA. Gobeithio y bydd y wybodaeth yn y pecyn hwn yn eich ysbrydoli i ystyried ymuno â ni er mwyn cael effaith ystyrlon.

Mae'n amser cyffrous iawn i fod yn rhan o YHA. Wrth inni ddathlu ein pen-blwydd yn 95 oed, rydym newydd lansio strategaeth wedi'i diweddaru sy'n adeiladu ar lwyddiannau diweddar gyda gweledigaeth glir ar gyfer y dyfodol. Gyda diben ac optimistiaeth newydd, rydym yn canolbwyntio ar gyflawni newid parhaol i'n buddiolwyr.

Mae gwella mynediad wrth galon YHA. Mynediad i'r awyr agored, natur a threftadaeth i bawb, a phobl ifanc a'r rhai sy'n teithio ac yn cael antur am y tro cyntaf yn arbennig.

Aelodau'n Bwrdd sy'n arwain ein helusen a menter gymdeithasol, ac mae'r gwaith hwn yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl. Trwyddo, rydym yn meithrin llesiant trwy ddatblygu hyder, cysylltiadau ac ymdeimlad o berthyn. Ni fu hynny erioed mor bwysig nac yn y byd ansicr a newidiol sydd ohoni.

Fel y gwyddom, mae'r blynyddoedd diwethaf wedi bod yn heriol – i'n buddiolwyr, y sector elusennol a'r gymdeithas gyfan - wrth inni lywio trwy waddol y pandemig a'r argyfwng costau byw. Rydym wedi goresgyn heriau enfawr, ac mae'n bleser gen i ddweud bod YHA wedi cyrraedd blwyddyn olaf cynllun adfer – gyda'r nod o ddychwelyd at warged ariannol. Ond mae ffordd hir o'n blaenau o hyd. Ac mae sefydlogrwydd ariannol yn hollbwysig wrth inni geisio tyfu a dwysau ein heffaith.

Drwy gyfuniad o arbedion cost strategol, twf, a chyflawni ein strategaeth rhwydwaith hosteli yn llwyddiannus, rydym ar y ffordd i gyflawni cynaliadwyedd ariannol hirdymor. Ar yr un pryd, rydym yn cyflenwi rhaglenni effaith blaenllaw sydd wedi'u targedu at bobl ifanc a chymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol.

O'n harosiadau preswyl Heb Adael Unrhyw Blentyn ar ôl, sy'n rhoi cyfleoedd hanfodol i blant mewn perygl o golli allan ar ddysgu awyr agored, i'n rhaglen arloesol Dinasyddion yr Awyr Agored, sy'n helpu sefydliadau llawr gwlad i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau systemaidd a gwella mynediad i natur - rydym yn falch i wneud gwahaniaeth gwirioneddol. Mae ein digwyddiadau Gŵyl Cerdded hefyd yn helpu i ddechreuwyr fagu hyder a mwynhau'r tirweddau syfrdanol o amgylch ein hosteli. A thrwy'r fenter Cenhedlaeth Werdd a ariennir gan y llywodraeth, rydym wedi cysylltu mwy na 140,000 o bobl ifanc dan anfantais â byd natur - yn gweithio gyda phartneriaid cynghrair i annog amgylcheddwyr y dyfodol.

Wrth inni nesáu at ein canmlwyddiant, rydym yn chwilio am bobl angerddol sy'n gallu cynnig profiad byw ac arbenigedd er mwyn symud YHA yn ei flaen. Mae angen arnom leisiau egnïol a chydweithredol ar ein Bwrdd er mwyn helpu i YHA gael effaith gymdeithasol fwy byth yn ystod y blynyddoedd i ddod.

Gobeithio y byddwch yn ystyried cynnig eich sgiliau a'ch safbwynt unigryw i'n Bwrdd. Dymunaf bob hwyl ichi gyda'ch cais.



Margaret Hart, Cadeirydd





















# Ein diwylliant

Mae dod yn Ymddiriedolwr yn broses gwerth chweil y mae pobl yn wirioneddol ei mwynhau. Mae'n cynnig cyfle prin i lywio cyfeiriad elusen sydd â'i gwaith wedi'i wreiddio mewn gwerthoedd grymus ac effaith gymdeithasol wirioneddol. Mae hefyd yn gyfle i gydweithio â phobl tu hwnt i'ch sector arferol neu'ch profiad bob dydd – gan gynnig safbwyntiau newydd ac ehangu ar eich safbwynt chi.

Ein Bwrdd o 15 o Ymddiriedolwyr sydd â chyfrifoldeb cyfreithiol cyffredinol dros YHA. Gyda'i gilydd, aelodau'r Bwrdd sy'n pennu'r gwaith o gyflawni ein strategaeth a'i oruchwylio, ac yn rhoi arweiniad mewn meysydd allweddol fel effaith, cyllid, rheoli risg, eiddo, lletygarwch, a pherfformiad. Daw ein Hymddiriedolwyr o gefndiroedd personol a phroffesiynol amrywiol iawn, sy'n ysgogi trafodaethau cyfoethog a deinamig yn yr ystafell fwrdd - ac mae pob llais yn cyfranogi'n ystyrlon i'n cynnydd.

Mae cynhwysiant a mynediad i bawb wrth galon popeth a wnawn yn YHA. Fel Ymddiriedolwr, byddwch yn rhan o ddiwylliant agored, cynhwysol lle caiff safbwyntiau gwahanol sy'n hanfodol i'n llwyddiant eu croesawu. Credwn fod y penderfyniadau gorau'n cael eu gwneud mewn amgylchedd o gyd-barchu, ymddiried, a herio'n adeiladol.

Os ydych chi'n cytuno â'r gwerthoedd hyn , ac mae'r syniad o helpu YHA i dyfu a chryfhau ei heffaith yn eich cyffroi, byddem wrth ein boddau i ddweud mwy wrthych.






# Cwrdd â rhai o'n Hymddiriedolwyr

## Dyma beth oedd gan rai o'n Hymddiriedolwyr presennol i'w ddweud am gyfraniad YHA i gymdeithas, a'r hyn sy'n ei ysgogi fel aelod o'r Bwrdd.

S

"

**Mae bod yn Ymddiriedolwr yn gyfle ichi wneud gwahaniaeth i achos arbennig - sicrhau bod pob person ifanc yn gallu cael antur. Mae wedi bod yn wych i fod yn Ymddiriedolwr ifanc ar Fwrdd YHA - rydw i wedi mwynhau gweithio gyda phobl â sgiliau amrywiol ar faterion heriol i ddylanwadu ar newid cadarnhaol. Rydw i wedi datblygu sgiliau a hyder trwy fod yn rhan o'r bwrdd cefnogol hwn - yn sylweddoli bod fy llais yn gallu gwneud gwahaniaeth (mae yna reswm pam fod angen arnom aelodau amrywiol ar fyrddau) - a chael llawer o hwyl ar hyd y ffordd.**

Sarah "

R

"

**Mae angen gwirioneddol i bobl ifanc gael llawer o brofiadau sy'n eu cyffroi, eu herio a'u hysbrydoli i ofyn cwestiynau am eu hunain ac am gymdeithas yn gyffredinol. Rydw i wedi gwneud hynny, ac yn parhau i wneud, ac rydw i'n gyffrous i hwyluso cyfleoedd sy'n galluogi i bawb ohonom barhau i gael hwyl a bod yn chwilfrydig.**

Rej "

P

"

**Mae YHA yn galluogi pawb, a phobl ifanc yn arbennig, i gyrraedd mannau na fyddai'n bosibl iddynt eu cyrraedd fel arall. Fel person a gafodd y buddion hyn yn ifanc, rydw i'n ddiolchgar iawn i gael y cyfle hwn sy'n newid bywydau. Fel aelod o'r Bwrdd, yr hyn sy'n fy symbylu yw gwybod fy mod i'n cyfrannau at benderfyniadau a fydd yn ysgogi mwy o effaith ac yn gwella llesiant pobl fel fi. Rydw i'n falch o fod yn gallu rhoi rhywbeth yn ôl fel hyn.**

Paula "

# Gallai'r rôl hon fod yn ddelfrydol i chi

Nid oes rhaid ichi fod wedi bod yn aelod o Fwrdd cyn bod yn Ymddiriedolwr YHA. Os ydych chi'n malio am gysylltu pobl â'i gilydd, gyda'r awyr agored, natur a threftadaeth, hoffem glywed gennych.

Rydym yn chwilio am bobl sy'n cefnogi ein cenhadaeth a'n gwerthoedd, ac sy'n gallu gweithredu fel llysgenhadon dros YHA. Bydd angen arnoch fod yn barod i wrando, cyfrannu, a dod â'ch safbwynt chi at y bwrdd – yn gwybod pryd i ofyn cwestiynau, cynnig cymorth, neu herio syniadau'n ystyrlon ac yn adeiladol.

Nid yw profiad yn unffurf. P'un a ydych wedi cymryd rhan mewn grŵp cymunedol, cyngor myfyrwyr, pwyllgor rhieni, undeb llafur, ymgyrch leol, neu Fwrdd ffurfiol – mae'r holl safbwyntiau hynny'n werthfawr yma. Yr hyn sydd mwyaf pwysig yw eich ymroddiad, eich gallu i gyfathrebu'n glir, meddwl yn strategol, a gweithio'n gydweithredol â phobl eraill.

Os yw hyn yn swnio fel chi, gobeithiwn y byddwch yn ymgeisio.



# Am bwy ydyn ni'n chwilio?

Yn anad dim, rydym yn chwilio am bobl sydd â'r sgiliau a'r profiad i lywio a herio cyfeiriad strategol y sefydliad cyfan.

## Rhinweddau hanfodol pob Ymddiriedolwr

Nid oes arnoch angen profiad blaenorol o fod yn aelod o Fwrdd i fod yn Ymddiriedolwr YHA.
Yr hyn sy'n bwysig yw eich bod yn cynnig:

- hyder cryf yng nghenhadaeth YHA a dealltwriaeth o'n cyfeiriad strategol
- sgiliau cyfathrebu a gwrando da
- sgiliau penderfynu teg a rhesymegol
- yr hyder i herio a rhoi cymorth yn adeiladol
- yr amser i ymrwymo i'r rôl (gan gynnwys paratoi ar gyfer cyfarfodydd a'u mynychu)
- ymrwymiad i werthoedd YHA: Cynorthwyol, Effeithiol, Dilys, Parchus ac yn Cyd-dynnu

## Amrywiaeth

Credwn fod amrywiaeth o bob math yn ein gwneud yn gryfach, yn fwy effeithiol, ac yn rhoi inni'r gallu i gyflawni ein cenhadaeth yn well. Rydym yn malio am bwy ydych chi - yn ogystal â'r hyn a wnaethoch.

Croesawn geisiadau gan bobl o bob cefndir. Yn benodol, rydym yn annog pobl y mwyafrif byd-eang i ymgeisio. Nid oes gan y lleisiau hyn ddigon o gynrychiolaeth ar y Bwrdd ar hyn o bryd, ac rydym wedi ymrwymo i newid hynny.

## Profiad strategol ychwanegol gwerthfawr

Hefyd, hoffem gryfhau'r Bwrdd gydag Ymddiriedolwyr â safbwynt strategol mewn perthynas ag un neu fwy o'r meysydd canlynol:

- Cyllid
- Lletygarwch
- Technoleg gwybodaeth, seiberddiogelwch a diogelu data
- Arweinyddiaeth mewn amgylchedd ysgol

i

**Nid oes rhaid ichi fod â'r holl sgiliau hyn i ymgeisio.**

**Rhaid i ymgeiswyr fod dros 16 oed.**

Mae YHA wedi ymrwymo i gynnal a hyrwyddo cydraddoldeb a thriniaeth deg i bawb

Darllenwch ein polisi recriwtio mwy diogel yn jobs.yha.org.uk/safer-recruitment-policy.

## Peidiwch â phoeni am eich treuliau

Ni ddylai costau byth fod yn rhwystr rhag ymgeisio i fod yn Ymddiriedolwr, nag ymgymryd â'r swydd. Rôl wirfoddol yw hon ond caiff treuliau teithio a chostau eraill yr eir iddynt fel rhan o'ch dyletswyddau fel Ymddiriedolwr eu had-dalu'n llawn.

# Yr hyn a ofynnnwn gennych

Fel pob ymdrech gwerth chweil, mae angen amser ac ymrwymiad ar rôl Ymddiriedolwr. Hoffem fod yn glir o'r cychwyn am yr hyn sydd ei angen, a'ch sicrhau bod cymorth ar gael. Rydym wedi cynnwys cyfleustra a hyblygrwydd yn y broses lle bo'n bosibl.

Mae hon yn rôl hybrid, gyda chyfuniad o gyfraniadau ar-lein ac wyneb-yn-wyneb drwy gydol y flwyddyn.

## Gallwch ddisgwyl:

- Tri chyfarfod Bwrdd wyneb-yn-wyneb, a gynhelir dros benwythnosau mewn hostel YHA yng Nghymru neu Loegr. Mae'r rhain yn gyfleoedd gwych ichi gysylltu â'ch cyd-Ymddiriedolwyr ac i brofi ein safleoedd dros eich hun, gan fod llety dros nos yn cael ei ddarparu.
- Mynychu ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (ar-lein) ac un cyfarfod rhithiol o'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn (cynhelir y ddau gyfarfod ar ddyddiau Sadwrn).
- Cyfarfodydd ychwanegol o'r Bwrdd yn achlysurol, a gynhelir ar-lein os bydd angen.
- Bod yn aelod o is-bwyllgor, sydd fel arfer yn cwrdd ar-lein am ddwy awr pedair gwaith y flwyddyn.
- Treulio amser yn darllen papurau ac yn paratoi ar gyfer cyfarfodydd.

Yn ogystal â'r prif gyfarfodydd hyn, mae Ymddiriedolwyr hefyd yn gwneud cyfraniadau parhaus eraill ac yn cynrychioli YHA mewn digwyddiadau yn achlysurol.

## Caiff Ymddiriedolwyr newydd eu cefnogi gan raglen sefydlu gynhwysfawr, sy'n cynnwys:

- sesiynau ar-lein i gyd-fynd â'ch amserlen chi (cyfanswm o oddeutu chwe awr)
- sesiwn hanner-diwrnod, wyneb-yn-wyneb gyda'n rheolwyr busnes rhanbarthol yn un o'n hosteli
- hyfforddiant parhaus mewn meysydd fel diogelu a chyllid er mwyn rhoi i chi'r hyder a'r gallu i gyflawni'r rôl

## Yr is-bwyllgorau gallai'r Ymddiriedolwyr ymuno â hwy:

- Pwyllgor Cyllid
- Pwyllgor Pobl, Cydnabyddiaeth Ariannol, Effaith ac Ymgysylltu
- Pwyllgor Archwilio a Risg
- Pwyllgor Recriwtio'r Bwrdd



# Deall y cyfrifoldebau

Mae cyfrifoldebau cyfreithiol yn rhan o'r gwaith o fod yn Ymddiriedolwr. Fel aelod o'r Bwrdd, byddwch yn helpu i lunio penderfyniadau a fydd yn llywio dyfodol YHA – a chaiff y penderfyniadau hynny eu gwneud ar y cyd. **Mae'r holl Ymddiriedolwyr yn rhannu cyfrifoldeb** dros gamau gweithredu a chanlyniadau'r Bwrdd cyfan.

Mae dull gweithredu'r Ymddiriedolwyr wedi'i nodi yn **Erthyglau Cymdeithasu** YHA, a sicrhawn y byddwch yn cael eich cynorthwyo i ddeall y rhain. Rhan allweddol o'r rôl yw bod yn ymwybodol o unrhyw **wrthdaro buddiannau** a'u nodi - er enghraifft, pe byddai penderfyniad yn gallu effeithio ar rywbeth rydych yn rhan ohono'n bersonol. Os digwydd hynny, gofynnir i Ymddiriedolwyr ei ddatgan ymlaen llaw a dilyn **Polisi Gwrthdaro Buddiannau** YHA, y byddwn yn ei rhannu â chi os ydych yn cyrraedd y rhestr fer. Byddwn hefyd yn gofyn ichi lenwi ffurflen ddatganiad fer os ydych yn llwyddo yn y cyfweliad.

Gofynnwn am wiriadau safonol cyn penodi i sicrhau ein bod yn diwallu ein rhwymedigaethau cyfreithiol fel elusen a chwmni. Mae'r rhain yn cynnwys cadarnhau bod yr ymgeiswyr **yn gymwys i fod yn Ymddiriedolwyr**, a chwblhau **gwiriad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd**. Byddwn yn eich llywio trwy'r rhain os gewch chi eich penodi.

Mae'r camau hyn yn rhan o'r broses i greu Bwrdd cyfrifol a ymddiriedir ynddo – ac rydym yma i'ch cefnogi ar bob cam o'r ffordd.

**Dylech nodi**

Mae'r Ddeddf Elusennau yn anghymhwyso pobl rhag bod yn Ymddiriedolwyr:

- os oes ganddynt euogfarnau heb eu disbyddu am droseddau fel y nodir yn y Ddeddf Elusennau (Gwarchod a Buddsoddi Cymdeithasol) 2016
- os ydynt yn fethdalwyr nas rhyddhawyd
- os ydynt wedi gwneud trefniant gyda chredydwyr ac nad ydynt wedi cael eu rhyddhau (bydd hyn yn cynnwys trefniant gwirfoddol unigol)
- os ydynt yn ddarostyngedig i orchymyn anghymhwyso o dan Ddeddf Anghymhwyso Cyfarwyddwyr Cwmnïau 1986 neu i orchymyn a wnaed o dan adran 429 (2) (b) o Ddeddf Ansolfedd 1986
- os ydynt wedi cael eu diswyddo o fod yn Ymddiriedolwyr elusen arall trwy orchymyn a wnaed gan y Comisiwn Elusennau neu'r Uchel Lys





# Strwythur llywodraethu YHA

Mae aelodau'r Bwrdd Ymddiriedolwyr sy'n pleidleisio yn cynnwys y grwpiau canlynol:

a. tri Swyddog Cenedlaethol (y Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd, y Trysorydd)
b. hyd at 12 aelod a etholwyd gan aelodau YHA
c. hyd at ddau aelod cyfetholedig

Caiff aelodau'r Bwrdd eu hethol am dymor o bedair blynedd. Ar ôl y tymor cyntaf, mae Ymddiriedolwyr yn gymwys i ymgeisio ar gyfer cael eu hailethol am un tymor pedair blynedd arall. Edrychwn ymlaen at gwrdd â'n Hymddiriedolwyr newydd a helpu iddynt ymgyfarwyddo â YHA. I'w croesawu i'r Bwrdd, bydd Ymddiriedolwr presennol yn eu mentora, a chynhelir rhaglen sefydlu lawn.

Darllenwch am ein Hymddiriedolwyr presennol yn yha.org.uk/about-yha/board-trustees

Gwyliwch ein fideo yn esbonio'r rôl gwerth chweil hon (sganiwch y cod QR isod)

Sganiwch y cod QR i wylio'r fideo

Darllenwch fwy am lywodraethu YHA yn yha.org.uk/about-yha/governance

# Sut i ymgeisio

Nid oes rhaid ichi fod yn aelod o YHA i ymgeisio i fod yn Ymddiriedolwr. Fodd bynnag, i gael eich ethol bydd angen ichi ddod yn Aelod Cyswllt o YHA cyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar ddydd Sadwrn 8 Tachwedd 2025.

Mae cais llawn yn cynnwys cais ar-lein, sy'n cynnwys eich manylion personol, ffurflen monitro amrywiaeth a datganiad ymgeisydd a fydd yn gofyn cwestiynau ynghylch eich sgiliau a'ch profiad.

Os oes angen cymorth arnoch gyda'r broses ymgeisio, neu os hoffech gyflwyno'ch cais mewn fformat gwahanol, cysylltwch â trusteerecruitment@yha.org.uk.

# Cyflwyno eich cais

Yn unol â'n harferion recriwtio mwy diogel, rhai i'r holl geisiadau cael eu cyflwyno trwy ein Porth Ymgeiswyr. Cewch fwy o wybodaeth a dolen at y swydd wag yn jobs.yha.org.uk/our-roles/become-a-yha-trustee/

Rhaid anfon pob cais wedi'i gwblhau erbyn **9am ar ddydd Llun 21 Gorffennaf 2025** er mwyn iddynt gael eu hystyried ar gyfer y rhestr fer. Ni fydd ceisiadau anghyflawn neu hwyr yn cael eu hystyried. Byddwn yn cysylltu â'r ymgeiswyr a roddir ar y rhestr fer erbyn dydd Mercher 6 Awst 2025. Byddwn yn cysylltu â'r rhai nas rhoddir ar y rhestr fer i roi gwybod iddynt nad oeddent yn llwyddiannus.

Mae'n ddrwg gennym ond ni allwn roi adborth unigol i ymgeiswyr sy'n aflwyddiannus ar y cam hwn.

Os oes angen unrhyw gymorth arnoch wrth gyflwyno'ch cais neu os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch y broses Recriwtio Ymddiriedolwyr, anfonwch neges e-bost at trusteerecruitment@yha.org.uk

Caiff y ceisiadau eu hasesu gan Bwyllgor Recriwtio Bwrdd YHA, sy'n goruchwylio'r broses dethol ymgeiswyr ar ran ein haelodau. Caiff Ymddiriedolwyr eu hethol gan Aelodau Cyswllt drwy broses bleidleisio ar-lein.

01

# Dyddiadau’r cyfweliadau

Cynhelir y cyfweliadau yn rhithiol rhwng 1 a 2 Medi 2025.

Ar ôl y cyfweliadau, bydd Pwyllgor Recriwtio Bwrdd YHA yn cadarnhau’r ymgeiswyr llwyddiannus am rôl Ymddiriedolwyr a gyflwynir i bleidleisio arnynt erbyn dydd Mercher 10 Medi 2025. Bydd pleidleisio dros Ymddiriedolwyr ar-lein yn agor i aelodau YHA ar 26 Medi 2025 ac yn cau ar 24 Hydref 2025. Byddwn yn rhannu’r canlyniadau gyda’r ymgeiswyr ar y rhestr fer cyn gynted ag y bo modd wedi hynny.

Disgwylir i’r Ymddiriedolwyr newydd eu hethol fynychu’r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhelir yn rhithiol ar ddydd Sadwrn 8 Tachwedd 2025.

Diolch yn fawr.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, anfonwch neges e-bost at trusteerecruitment@yha.org.uk a bydd y tîm yn hapus i’ch cynorthwyo.



Ni yw YHA.

**Oherwydd mae ble yr ewch chi yn newid pwy fyddwch chi.**

aros | ymuno | rhoi | gwirfoddoli yha.org.uk

YHA (ENGLAND AND WALES), Trevelyan House, Dimple Road, Matlock, Derbyshire DE4 3YH Rhif cwmni 00282555 Rhif elusen gofrestredig 306122